MORGAN, ROBERT (1621 - 1710), gweinidog gyda'r Bedyddwyr

Enw: Robert Morgan
Dyddiad geni: 1621
Dyddiad marw: 1710
Plentyn: Hannah Melchior (née Morgan)
Plentyn: David Morgan
Plentyn: John Morgan
Plentyn: Robert Morgan
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: gweinidog gyda'r Bedyddwyr
Maes gweithgaredd: Crefydd
Awdur: Benjamin George Owens

o Landeilo-Talybont (Pontardulais); dywedir ei eni yn 1621. Yr oedd yn bresennol yng nghymanfa eglwysi bore Bedyddwyr Cymru yn 1653 a 1654, fel cennad o Gaerfyrddin, ac yn arwyddo'r penderfyniadau, ond nid oes sicrwydd ei fod yn weinidog yno. Chwalwyd yr eglwys honno yn erledigaeth yr Adferiad, a daeth yntau'n gyd-weinidog â Lewis Thomas, y Mŵr, ar Fedyddwyr Ilston, gan ofalu'n bennaf am adran y gorllewin, yn arbennig yn ardaloedd Llangennech a Llannon, lle y treuliodd weddill ei oes. Ceir cyfeiriadau ato yn 1672 yn codi trwyddedau addoli ar dai byw yno, ac yn 1684 yn derbyn gwarant, gyda'i fab David o Lynllwchwr ac eraill o ardaloedd Abertawe a Llangyfelach, i ymddangos gerbron y Sesiwn Fawr am wrthod mynychu cyfarfodydd yr eglwysi plwyf. Yr oedd yn gennad hefyd yng nghymanfa Llundain yn 1689. Ni wyddys dydd ei farw, ond fe'i cladwyd yn Llandeilo-Talybont ar 5 Ebrill 1710. Bu'n cadw ysgol yn ei gartref, a dywedir ei fod yn brydydd. Ganed iddo chwech o blant, gan gynnwys David; John, a fu farw ar gychwyn ei weinidogaeth yn Warwick, 12 Mai 1703, yn 24 oed; Hannah, gwraig Arthur Melchior, y ceir ei henw hi a'i gŵr ymhlith yr aelodau a ollyngwyd o Abertawe i Bennsylfania yn 1710; a Robert (neu Morgan) y dywedir ei fod yn ysgolfeistr yn Horsley Down, Llundain.

Awdur

Benjamin George Owens

Ffynonellau

Hanes y Bedyddwyr ymhlith y Cymry: o amser yr Apostolion, hyd y flwyddyn hon: yn ddwy ran (Caerfyrddin 1778) (arg. 1885), 101-3, 107, 111-4, 178

Trafodion Cymdeithas Hanes Bedyddwyr Cymru, 1912-3, 7-8; 1916-9, 57

A History of Carmarthenshire, ii (1939), 149-50, 173-4

N.L.W. *Llawysgrif Penrice a Margam yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru* 6029

Hanes y Bedyddwyr yn Nghymru, ii, 460-1

Josiah Thomas Jones, *Geiriadur Bywgraffyddol o Enwogion Cymru* (AberdÃ¢r 1867-70), ii, 293-4

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20734349

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

PDF Argraffu Cyfeirnodi

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu

Arddull APA

×

Owens, B. G., (1953). MORGAN, ROBERT (1621 - 1710), gweinidog gyda'r Bedyddwyr. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 20 Tac 2024, o https://bywgraffiadur.cymru/article/c-MORG-ROB-1621

Copïo i'r clipfwrdd

LLGC
NLW
LLYFRGEL
THE NATI
Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government